# Cofnodion cyfarfod Hydref 7fed, 2021

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Elin Hedd, Ivora Jones, Tony Parry, *Alun Price, Eifion Roberts*,(*trwy gyfrwng Zoom),* Lis Puw *(Clerc)*.

Cododd yr aelodau mewn parch i dalu teyrnged i'r diweddar Dilwyn Jones, cyn Gynghorydd a chyn Faer, a wasanaethodd y Cyngor am gyfnod o hanner canrif.

1. **Croesawyd pawb gan y Maer, O Rhys Evans** a wnaeth hefyd gyfeirio at wasanaeth clodwiw Dilwyn Jones. Diolchodd ar ran y teulu am bob arwydd o gydymdeimlad, a diolchodd yn arbennig i'r Dirprwy Faer, Sharon Evans, am wisgo'r gadwyn yn y cynhebrwng tra ei fod ef yn traddodi'r Deyrnged.
   Derbyniwyd ymddiheuriadau'r Dirprwy Faer Sharon Evans, Eluned Jones, Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd).

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/9/2021

4. **Materion y Clerc:**

   a. **11.iv** Gohebiaeth parthed mabwysiadu mainc a gosod plac coffa ar fainc: diolchodd y gohebydd am awgrymiadau doeth y Cyngor.

   b. Ystyriwyd gohebiaeth ar addasrwydd annedd yn Y Bala ar gyfer y digartref. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i holi am eu polisi gosod tenantiaid gyda phroblemau mewn ardal wledig lle nad oes cefnogaeth wrth law. Holir am y mesurau sydd gan Gyngor Gwynedd i osgoi bod eu tenantiaid yn amharu ar eraill, a'r gefnogaeth a roddir i denantiaid allu ymgartrefu'n dawel a hapus yn Y Bala. Pan ddaw ymateb oddi wrth Cyngor Gwynedd, cytunwyd i drafod o dan arweiniad y Cynghorydd Dilwyn Morgan.

   c. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Sarah Green AS yn diolch yn fawr am gyfarchion y Cyngor ac yn mynegi ei gwerthfawrogiad o'r addysg a dderbyniodd yn Ysgol y Berwyn.

   d. Mae matiau a lle chwarae'r Grin yn cael eu harchwilio heddiw, 7/10/21.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd Adroddiad.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd llythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac adroddiad gan Tony Parry. Mae'r gwaith yn mynd i gychwyn tua mis Ionawr gan weithio yn ôl tuag at y Clwb Rygbi. Mae ecolegwyr yn gweithio yno ar hyn o bryd. Bydd y coed yn dod lawr wrth iddynt wneud y gwaith. Bydd y llwybrau'n cael eu dargyfeirio.

7. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price a'r Clerc o Bwyllgor Ardal Meirionnydd. Anerchodd Mabon ap Gwynfor ar ei gysylltiadau gyda gwledydd eraill sydd yn delio gyda mater tai i bobl leol, a'i fwriad i ddod a mesur gerbron y Senedd pe byddai hynny'n bosib. Y gŵr gwadd arall oedd Mr Ffrancon Williams, Prif Weithredwr Adra, a eglurodd mai busnes yw Adra sy'n derbyn grantiau gan y Llywodraeth. Maent yn gweithredu dros ogledd Cymru a'u hamcan ar hyn o bryd yw darparu cartrefi newydd carbon isel.

8. **Is-bwyllgorau / cyfarfodydd:**

   a. Derbyniwyd adroddiad yr Is-bwyllgor Nadolig a chytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd osod 8 garland ar bolion y Stryd Fawr.

   b. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod ar ddyfodol Gwynedd gyda Lindsey Ellis Edwards: dywedodd y Maer y bu'n gyfarfod diddorol yn ystyried sut fydd Y Bala'n edrych yn y flwyddyn 2035. Soniwyd yn arbennig am gynaliadwyedd economi'r dref, isadeiledd y dref pe byddai mewnlifiad o bobl; gwahanol botensial i ddenu mwy o swyddi a siopau. Bydd ymgynghori pellach gyda thrigolion a chyfarfod dilynol gyda'r Cyngor. Holwyd am gynlluniau'r Cyngor am y 3 mlynedd nesaf, gan gynnwys ymateb i gynnydd mewn nifer twristiaid; holwyd a oes cynlluniau i wahodd neu drefnu Gŵyl yn y dref. Cytunwyd i neilltuo hyd at awr a hanner o gyfarfod Tachwedd yn bennaf i drafod cynlluniau ar gyfer 2022-23 (neu 2022-25). Bydd cyfarfod Tachwedd yn adeg briodol i wneud hyn cyn i'r is-bwyllgor cyllid ystyried y Gyllideb a'r Praesept.

   c. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod ar ddiogelwch Cronfa Ddŵr Celyn gan Tony Parry a ddywedodd fod yr ymweliad yn un diddorol iawn. Pwysleisiwyd nad oes pryder am ddiogelwch Celyn, ond bod angen allanfa arall ar gyfer gorlif, er mai annhebygol y byddai hwnnw'n cael ei ddefnyddio.

   d. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price a ddywedodd ei fod yn falch o rôl y Bartneriaeth i warantu'r Ganolfan Deulu, ond erbyn hyn mae'r Bartneriaeth wedi camu'n ôl o'r cynllun. Deellir fod y cynlluniau'n mynd yn eu blaenau.

9. **Un Llais Cymru:**

   a. Cytunwyd nad oedd angen hyfforddiant ar hyn o bryd.

   b. Ystyriwyd goblygiadau Rheoliadau taliadau i Gynghorwyr. Mae'r Bala yng nghategori 4 felly mae'r drefn o neilltuo £150 y flwyddyn i aelodau yn parhau (ac mae'r hawl i'w wrthod yn parhau hefyd). Cytunwyd i wrthod y cyfle i bennu tal presenoldeb. Cytunwyd i dalu .45c y filltir i'r sawl sy'n teithio i gynrychioli'r Cyngor. Mae'r penderfyniadau hyn bellach yn bolisi'r Cyngor, ond gellir ail-ystyried y polisi yn flynyddol.

   c. **Materion Cynllunio**: **NP5/53/588** Cytunwyd i ystyried cais cynllunio i adeiladu estyniad ochr deulawr a garej/gweithdy yn yr ardd yn 14 Ffordd y Gerddi, Y Bala. LL23 7AY dros e-bost pan ddaw manylion y cais ar wefan y Parc. Anfonir y manylion a disgwylir barn y cynghorwyr erbyn 15/10/21.

**10. Materion Cyllid:**

- **a.** Ystyriwyd manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- **b.** Cytunwyd i dalu anfonebau: Glanhau Llochesi; HMRC; cyflog ( y rhain yn daliadau o dan Gytundeb); Cyngor Gwynedd £252 am archwiliad mewnol.
- **c.** Derbyniwyd gwybodaeth am gostau newydd HSBC a chytunwyd i symud i fancio ar y we, yn dilyn cyngor Un Llais Cymru.
- d. Ystyriwyd ceisiadau am gefnogaeth ariannol a chytunwyd i gyfrannu £350 i Deulu Berwyn ar gyfer darparu te prynhawn unigol i'w haelodau.

**11. Gohebiaeth:**

- **a. Parc Cenedlaethol Eryri:**
    - **i.** Nodwyd derbyn gwybodaeth ar sut i fod yn aelod o'r Awdurdod.
    - ii. Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun Ardaloedd Cadwraeth. Cytunwyd i gyfarfod ar y we gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri pan ddaw gwahoddiad.
- b. Cyngor Gwynedd: Dim
- c. Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Senedd Ieuenctid.
- d. Cymeradwywyd llythyr gan Gymdeithas yr Iaith.
- e. Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gylch yr Iaith am yr hawl gyfreithiol i wrthwynebu cais cynllunio ar sail effaith ar yr iaith Gymraeg.
- f. Triathlon 2021 a 2022: Diolchwyd am y rhybudd y bydd Triathlon yn digwydd ar 4/9/22, gan fod achlysur eleni wedi bod yn fyr-rybudd. Holwyd a oes posib ffeindio llwybr amgen na'r un i Rydymain. Nid oes cyfle wedi bod i drafod gyda'r Grŵp Busnesau i dderbyn gwybodaeth am werth yr achlysur i fusnesau. Cyngor Tref Y Bala gychwynnodd y triathlon ac mae wedi bod yn gefnogol ar hyd y blynyddoedd. Gellir gwahodd y trefnwyr i gyfarfod â'r Cyngor os dymunant, a diolchwyd bod y trefnwyr yn bobl leol.

**12. Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad gan Carol Rowlands a gyfeiriodd at y ffaith fod toiledau'r anabl yn y Grin wedi bod ar gau am ran helaeth o'r haf; mae problemau gyda'r ddarpariaeth golchi dwylo yn y Grin a Plase yn parhau. Cytunwyd i ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd a thynnu sylw'r Cynghorydd Dilwyn Morgan at y problemau. Gofynnwyd yn garedig i John Caradog Williams dynnu'r fflagiau cyn stormydd y gaeaf.

**13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

- a. Llongyfarchwyd Mari Elen McNaught, disgybl yn Ysgol Godre'r Berwyn, ar ddod i rownd derfynnol gornest DU ar redeg cŵn defaid.

b. Sylwyd fod llawer o chwyn ar y stryd a’r pafin, a diolchwyd i rai busnesau am chwynnu ac am ymdrechu i gadw blaen y busnes yn daclus.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4/11/21.** Neilltuir awr neu awr a hanner o’r cyfarfod i drafod cynllun gweithredu’r cyngor ar gyfer 2022-23 (neu ymhellach). Bydd yr agenda arferol yn cael ei chwtogi o’r herwydd. Byddai’n ddymunol, hyd y bo’n bosib, i gynnal y drafodaeth o gwmpas y bwrdd yng Nganolfan Henblas am 7.00pm

*Amser gorffen: 9.45pm*



ARWYDDWYD…………………………………………………(MAER) / / ……………………………….(CLERC)